

Rhif: WG28253



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Cynnig i ddirymu Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad) (Cymru) 2012

Gorffennaf 2016

Trosolwg

Yn y ddogfen hon ceir crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad oedd yn ceisio barn am y cynnig i ddirymu Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad) (Cymru) 2012.

Cam gweithredu gofynnol:

Dim - er gwybodaeth

Manylion cyswllt

Polisi Cyllid Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: LGFPMail@cymru.gsi.gov.uk

Copiau Ychwanegol

Cyhoeddir yr adroddiad cryno hwn a chopïau o'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad ar ffurf electronig yn unig. Gallwch weld y dogfennau drwy edrych ar wefan Llywodraeth Cymru yn <http://gov.wales/consultations/?skip=1&lang=cy>

Dogfennau Cysylltiedig

Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad) (Cymru) 2012

Cynnig i ddirymu Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad) (Cymru) 2012

Cynnwys

Cyflwyniad 3

Cynnig 3

Ymgysylltu 3

Crynodeb o'r Ymatebion 3

Trosolwg o'r Ymatebion..... 4

Y Camau Nesaf 6

Atodiad A Rhestr o ymatebwyr 7

Cynnig i ddirymu Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad) (Cymru) 2012

Cyflwyniad

Prif fwrriad Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (“y Mesur”) yw creu cyfundrefn statudol sy’n integreiddio cynllunio cymunedol tymor hir a gwelliannau mwy tymor byr i wasanaethau lleol. O dan adran 8 o’r Mesur, gall Gweinidogion Cymru bennu dangosyddion perfformiad a safonau er mwyn mesur perfformiad awdurdodau lleol Cymru. Mae’r set gyfredol o ddangosyddion perfformiad statudol wedi’u pennu yng Ngorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad) (Cymru) 2012 (“y Gorchymyn”). Nid yw’r Gorchymyn yn cynnwys unrhyw safonau. Gelwir y dangosyddion statudol hyn yn Ddangosyddion Strategol Cenedlaethol (“DSC”) ac fe’u cyhoeddir gan StatsCymru mewn datganiad ystadegol.

Cynnig

Roedd yr ymgynghoriad yn canolbwyntio ar y cynnig i ddirymu Gorchymyn Llywodraeth Leol (Dangosyddion Perfformiad) (Cymru) 2012.

Ymgysylltu

Gofynnwyd am sylwadau fel rhan o gyfnod ymgynghori 12 wythnos o hyd a ddechreuodd ar 15 Mawrth 2016 ac a ddaeth i ben ar 6 Mehefin 2016. Cyhoeddwyd y papur ymgynghori a’r dogfennau cysylltiedig ar dudalennau ymgynghori gwefan Llywodraeth Cymru. Roedd ymatebwyr yn gallu cyflwyno eu barn a’u sylwadau ar bapur neu ar-lein, naill ai yn Gymraeg neu yn Saesneg.

Crynodeb o'r Ymatebion

Cafwyd 17 o ymatebion i’r ymgynghoriad i gyd gyda’i gilydd a hynny gan ystod o randdeiliaid. Rhoddwyd y dewis o fod yn ddiennw i’r holl ymatebwyr ac roedd 6 o’r ymatebwyr wedi penderfynu manteisio ar y dewis hwn. Felly nid yw eu henwau wedi cael eu defnyddio yn y ddogfen hon.

Cafwyd ymatebion gan yr unigolion a’r sefydliadau canlynol:

Ymatebwr	Nifer
Awdurdodau Lleol	9
Cyrff/Sefydliadau Cynrychiolwyr	1
Cyrff Proffesiynol	4
Grwpiau Gwleidyddol	1
Unigolion	2

Atodir rhestr gyflawn o ymatebwyr yn Atodiad A. Mae ymatebion unigol ar gael ar gais.

Trosolwg o'r Ymatebion

Yn y ddogfen hon, nodir canlyniad yr ymgynghoriad, gyda'r nod o roi crynodeb o'r ymatebion a ddaeth i law. Nid bwriad y ddogfen yw cofnodi pob pwynt a godwyd gan ymatebwyr, ond, yn hytrach, amlygu'r pwyntiau allweddol.

Roedd tri ar ddeg o'r ymatebwyr yn cytuno y dylid dirymu'r Gorchymyn; fodd bynnag roedd dau ohonynt yn amodol, roedd pedwar o'r ymatebwyr yn anghytuno â'r cynnig i ddirymu'r Gorchymyn a hefyd roedd 9 o'r ymatebwyr yn meddwl y byddai canlyniadau/goblygiadau pe bai'r Gorchymyn yn cael ei ddirymu. Mae'r paragraffau sy'n dilyn yn nodi ac yn trafod y prif bwyntiau a godwyd.

Dyma rai o'r sylwadau o blaid dirymu:

- Dylid dirymu'r DSC gan fod data eisoes ar gael o ffynonellau eraill, ac mae hyn yn achosi dyblygu.
- Mae gormod o bwyslais wedi bod ar gasglu data nad ydynt, yn aml, yn datgelu fawr ddim, ac sydd weithiau'n cael eu casglu mewn ffyrdd gwahanol gan ei gwneud yn anodd dwyn cymhariaeth deg.
- Mae nifer o ddangosyddion perfformiad yn setiau data'r DSC nad ydynt bellach mor berthnasol i nodau ac amcanion meysydd gwasanaeth. Pe na bai'r mesurau'n cael eu pennu mewn statud, byddai'n haws eu newid er mwyn iddynt adlewyrchu blaenoriaethau newidiol llywodraeth ac awdurdodau lleol.
- Dylid llunio casgliad newydd o ddangosyddion perfformiad cenedlaethol ar gyfer llywodraeth leol a'u gosod yng nghyd-destun cyfraniad llywodraeth leol i'r Nodau/Dangosyddion Llesiant.
- Byddai dirymu'r DSC yn rhoi mwy o ryddid a hyblygrwydd i lywodraeth leol ddatblygu fframwaith mesur perfformiad pellach sy'n canolbwyntio gymaint â phosib ar ganlyniadau.

Dyma rai o sylwadau'r ymatebwyr a oedd yn anghytuno â'r cynnig neu a oedd â phryderon yn ei gylch:

- Nododd tri o'r ymatebwyr mai ffordd arall o fesur nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus oedd drwy Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru, sy'n anstatudol. Gallai dirymu'r DSC hwn heb gael un arall yn ei le beryglu dyfodol y gwasanaeth statudol hwn.

Ymateb: Er bod Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru yn anstatudol mae swyddogion yn ystyried eu bod wedi gwreiddio digon mewn ymarfer ac yn ddigon grymus i'w defnyddio fel dewis arall yn hytrach na DSC.

- Nid oes dull casglu statudol arall ar gael yng nghyswllt nifer y dyddiau calendr a gymerir i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl. Byddai dileu'r DSC cyfredol heb sicrhau dewis arall yn arwain at ddiffyg sylweddol o ran monitro'r ddarpariaeth o addasiadau i dai ar gyfer pobl anabl.

Ymateb: Mae ystod o ddata ynghylch grantiau cyfleusterau i'r anabl ar gael fel rhan o'r cyhoeddiad ystadegol blynyddol, "Cymorth ar gyfer Gwelliannau Tai gan Awdurdodau Lleol". Lle awdurdodau lleol yw penderfynu sut i ddefnyddio'r data hyn wrth adrodd am eu perfformiad eu hunain.

- Nid yw'n glir beth fyddai'n dod yn lle'r DSC o ran ategu'r dangosyddion Llesiant er mwyn i awdurdodau lleol allu dangos eu cyfraniad at dargedau Llesiant.
- Ar hyn o bryd mae'r DSC yn gweithredu fel sail gyson y gall awdurdodau ei defnyddio i drafod ac i gymharu perfformiad ac maent yn cynnig dilyniant o ran tracio perfformiad dros amser. Gan nad oes cynnig ar hyn o bryd i ddisodli'r DSC, byddai'n beth doeth i lywodraeth leol barhau i gasglu dangosyddion cenedlaethol tan y daw yn glir beth y bydd angen i lywodraeth leol adrodd yn ei gylch er mwyn ategu'r targedau Llesiant cenedlaethol.
- Ni ddylid disodli'r DSC â dangosyddion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 gan na ellir dal Cynghorau'n uniongyrchol atebol am y rhain ac nid nhw yn unig sy'n gyfrifol am gyflawni canlyniadau'r dangosyddion hyn.

Ymateb: Mae Dangosyddion Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn darparu fframwaith cyffredinol ar gyfer canlyniadau cenedlaethol. Nid yw'r dangosyddion hyn ynddynt eu hunain yn caniatáu i awdurdodau lleol fesur na rheoli sut maent yn perfformio ac nid oedd yr ymgynghoriad yn cynnig y dangosyddion hyn fel dangosyddion yn lle'r DSC. Lle llywodraeth leol mewn ymgynghoriad â Llywodraeth Cymru yw gwneud trefniadau sy'n golygu bod awdurdodau yn gallu cyflawni eu cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 er mwyn dangos eu cynnydd tuag at gyflawni eu hamcanion Llesiant. Yn ychwanegol, y bwriadir cynnal mwy o gyfarfodydd gyda llywodraeth leol ar sut caiff trefniadau adrodd eu datblygu yn y dyfodol, fel rhan o ddiwygio llywodraeth leol ehangach.

- Gwnaeth tri o'r ymatebwyr sylw ynghylch amseriad yr ymgynghoriad gan fod DSC wedi'u cynnwys mewn cynlluniau corfforaethol neu gynlluniau gwella ar gyfer 2016-17.
- Bydd dileu'r DSC yn effeithio ar fframwaith mesur perfformiad llywodraeth leol ei hun, sef y Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (MAC).
- Ansicrwydd ynghylch casglu'r data ar gyfer DSC a MAC ar gyfer 2016/17.

Ymateb: Er y bydd rhoi terfyn ar gasglu data DSC yn golygu mai 2015-16 fydd y flwyddyn olaf y rhoddir adroddiad yn eu cylch, mae'r dangosyddion yn cael eu dyblygu i raddau helaeth, yn gorgyffwrdd neu yn cael eu disodli gan ofynion data perfformiad a geir mewn deddfwriaeth neu fframweithiau perfformiad eraill. Bydd Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, yn golygu y bydd yn ddyletswydd ar awdurdodau lleol o hyd i gyhoeddi asesiad o'u perfformiad unigol drwy gyfeirio at ddangosyddion perfformiad y maent wedi'u gosod arnynt eu hunain sy'n seiliedig ar fframwaith mesur perfformiad llywodraeth leol ei hun, sef y Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus (MAC). Rydym ar ddeall fod awdurdodau wedi cytuno gyda'i gilydd i barhau i gasglu DSC ar gyfer 2016-17 ar gyfer eu fframweithiau perfformiad fel rhan o'u MAC. Ni fyddai dirymu'r gorchymyn yn effeithio ar hyn.

- Un neges oedd yn cael ei awgrymu yn sgil y cynnig i ddirymu oedd mai ychydig o bwys oedd yn cael ei roi ar ddangosyddion perfformiad cenedlaethol, a bod perygl y byddai hyn yn cael ei ddyblygu ar lefel leol.
- Ni fydd sail gyson a dibynadwy ar gael i werthuso cyfraniad llywodraeth leol.
- Byddai'n well adolygu a lleihau'r DSC yn sylweddol yn hytrach na'u dirymu.

Ymateb: Mae'r cynnig i ddirymu'r Gorchymyn yn gyfle i ddileu neu i symleiddio'r trefniadau adrodd sy'n bodoli ar hyn o bryd er mwyn lleddfu ar y baich cydymffurfio a chaniatáu awdurdodau lleol i ganolbwyntio ar weithio'n fwy effeithiol yn hytrach nag adrodd yn ôl ar yr hyn maent yn ei wneud. Mae swyddogion yn hyderus bod digon o ddata a mecanweithiau ar gael o hyd i sicrhau bod modd rhoi fframwaith perfformiad

cadarn ar waith i fonitro perfformiad awdurdodau lleol yn y tymor byr ac yn y tymor canolig tra bydd dull o fesur perfformiad, adrodd a gwella ar gyfer y tymor hwy yn cael ei lunio a'i roi ar waith fel rhan o ddiwygiadau ehangach ym maes llywodraeth leol.

Roedd yr ymgynghoriad hefyd yn rhoi'r cyfle i ymatebwyr nodi sylwadau ychwanegol. Roedd nifer fechan o ymatebwyr wedi nodi sylwadau ychwanegol ond ni chodwyd unrhyw bwyntiau newydd yn y rhain.

Y camau nesaf

Roedd yr ymgynghoriad yn dangos cefnogaeth sylweddol i'r cynnig. Felly bydd Llywodraeth Cymru yn mynd ati i ddirymu'r Gorchymyn.

Y set ddata DSC ar gyfer 2015-16 fydd yr olaf ac ni fydd Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i gasglu data DSC ar gyfer 2016-17 nac ar ôl hynny.

O ganlyniad, y Datganiad Ystadegol blynyddol ar y Dangosyddion Strategol Cenedlaethol ar gyfer 2015-16 sydd i fod i gael ei gyhoeddi ym mis Medi 2016 fydd y datganiad olaf. Bydd llai o fanylion ynddo o gymharu â 2014-15 a chaiff defnyddwyr eu cyfeirio at y set ddata gyflawn a gyhoeddir ar wefan StatsCymru fel yn y blynyddoedd o'r blaen.

Hoffem ddiolch i bawb sydd wedi rhoi o'u hamser i ymateb i'r ymgynghoriad. Roedd eich sylwadau'n bwysig o ran dod i benderfyniad ynghylch a ddylid dirymu'r Gorchymyn ai peidio ac rydym yn ddiolchgar i chi am eich cyfraniadau.

Rhestr yr Ymatebwyr

Cafwyd ymatebion gan y canlynol:

Democratiaid Rhyddfrydol De Ddwyrain Cymru

Syr Andrew James Brennan

Cyngor Dinas Caerdydd

Cyngor Bro Morgannwg

Cymdeithas y Prif Lyfrgellwyr

Swyddfa Archwilio Cymru

Tai Pawb

Cyngor Sir Penfro

Cyngor Sir Ddinbych

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Cyngor Dinas Casnewydd

Dienw x 6